



Cynllun busnes 2023-24

Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi

Mawrth 2023

Cynnwys

Rhagair	3
Section 1 Cyflwyniad	5
Section 2 Mandad.....	7
Statud	7
Disgwyliadau.....	8
Arwain	9
Protocol Dewisol y Cenhedloedd Unedig i'r Confensiwn yn erbyn Arteithio a Thriniaethau neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill (OPCAT)	9
Datganiad cydraddoldeb ac amrywiaeth yr Arolygiaeth Carchardai	10
Section 3 Adnoddau	12
Section 4 Cynllun busnes 2023-24	13
Arolygiaeth annibynnol	14
Arolygiaeth ddylanwadol.....	19
Arolygiaeth atebol	22
Arolygiaeth abl	23
Arolygiaeth gydweithredol.....	26
Atodiad I: Geirfa	30
Atodiad II: Amcanion strategol 2023–24.....	32
Arolygiaeth annibynnol	32
Arolygiaeth ddylanwadol.....	32
Arolygiaeth atebol	32
Arolygiaeth abl	32
Arolygiaeth gydweithredol.....	33

Rhagair

Rwyf bellach wedi cwblhau fy ail flwyddyn lawn fel Prif Arolygydd Carchardai ac mae'r ymdeimlad cryf o bwrpas ac ymrwymiad i wella'r canlyniadau i garcharorion ymhlith yr holl staff ar draws yr Arolygiaeth yn gwneud argraff arnaf.

Dylai diogelwch staff a charcharorion fod yn flaenoriaeth allweddol i garchardai, ac er bod llawer sy'n gweithio yn y gwasanaeth carchardai yn parhau i wneud gwaith aruthrol dan amgylchiadau heriol iawn, mae llawer gormod o garchardai'n parhau i fod yn fannau anniogel a pheryglus i fyw a gweithio ynddynt. Er enghraifft, cafodd arolygiad o Garchar Eastwood Park ym mis Hydref 2022 y radd isaf o ran diogelwch, sy'n anghyffredin iawn i garchar i fenywod. Canfu'r arolygwyr fod carcharorion sy'n agored iawn i niwed, gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol, yn cael eu cadw mewn celloedd adfeiliedig sy'n llawn graffiti. Roedd lefelau hunan-niweidio yn arbennig o uchel ac roedd prinder staff wedi arwain at golli cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau a allai gynorthwyo llesiant meddyliol y menywod a oedd yno.

Yn anffodus, nid yn Eastwood Park yn unig yr oedd diogelwch yn bryder. Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethom gyhoeddi Hysbysiad Brys i Garchar Caerwysg yn dilyn arolygiad dirybudd oherwydd pryderon parhaus ynghylch diogelwch yn y carchar. Roedd hyn yn peri pryder neilltuol gan ein bod wedi cyhoeddi'r Hysbysiad Brys yn flaenorol i Gaerwysg yn 2018, gan olygu mai dyma'r tro cyntaf i'r Arolygiaeth roi proses yr Hysbysiad Brys ar waith eto mewn arolygiadau olynol o garchar i oedolion. Tynnwyd sylw hefyd at bryderon am ferched agored i niwed yn y ddalfa mewn adolygiad thematig o'u profiadau a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022.

Roedd diogelwch mudwyr sy'n cyrraedd mewn cychod bach ac yn cael eu cadw yng nghyfleuster cadw tymor byr Manston (STHF) hefyd dan y chwyddwydr y llynedd. Fe wnaethom archwilio'r safle ym mis Gorffennaf 2022 a chyhoeddi ein hadroddiad (Tachwedd 2022), a oedd yn tynnu sylw at bryderon ynghylch ei allu i brosesu niferoedd cynyddol o fewnfudwyr. Yn ystod yr hydref y llynedd rhoddais dystiolaeth i'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol ar ganfyddiadau ein harolygiad, ac rydym wedi ail-archwilio'r cyfleuster yn ddiweddar.

Er bod gan garchardai gyfrifoldeb i gadw'r rhai sy'n cael eu cadw yno'n ddiogel, mae ganddynt hefyd rôl i'w chwarae o ran lleihau'r risg o aildroseddu. Er gwaethaf yr effaith gadarnhaol y gall gweithgarwch pwrpasol ei chael ar ganlyniadau carcharorion, a bod dros flwyddyn ers i'r Llywodraeth roi mesurau cyfyngiadau symud COVID-19 ar waith ddiwethaf, mae llawer gormod o garcharorion yn dal i gael eu cloi yn eu celloedd am 23 awr y dydd. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar benwythnosau pan fydd llai o aelodau staff ar ddyletswydd fel arfer, a amlygwyd gennym yn ein hadroddiad thematig a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y mater. Nid ydym erioed wedi gweld mynediad at weithgarwch pwrpasol mor wael ag y bu eleni, ac rwyf yn dal yn siomedig bod llawer o garcharorion yn dal i orffen eu dedfrydau yn methu darllen.

Ym mis Rhagfyr 2022, fe wnaethom gyhoeddi adolygiad thematig yn archwilio profiadau carcharorion du gwryw sy'n oedolion a staff du mewn carchardai. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad lansio llwyddiannus lle'r oedd llawer o'n rhanddeiliaid yn bresennol. Roeddem hefyd yn falch o gael y cyfle i gyflwyno'r adroddiad mewn cyfarfod o'r Grŵp Hollbleidiol ar Faterion Cosbi. Roedd yr adroddiad yn nodi'n glir y gwahaniaethau rhwng carcharorion du a staff carchardai gwyn, a'r hiliaeth cynnil

eang a brofir nid yn unig gan garcharorion du ond hefyd gan aelodau staff du. Roedd yn nodi atebion creadigol ond syml ar gyfer meithrin ymddiriedaeth a pherthynas rhwng staff a charcharorion, ac rydym yn edrych ymlaen at weld sut bydd y gwasanaeth carchardai'n ymateb i'n hargymhellion.

Un newid arwyddocaol i'r Arolygiaeth y llynedd oedd y symud o gynnwys argymhellion mewn adroddiadau i restru ein pryderon, gan gynnwys nifer fach o bryderon â blaenoriaeth. Mae pryderon blaenoriaeth yn tynnu sylw at y meysydd hynny y credwn y dylid rhoi'r sylw mwyaf brys iddynt gan arweinwyr carchardai. Nod y dull newydd hwn yw helpu llywodraethwyr ac arweinwyr carchardai eraill i ganolbwyntio ar y pethau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar wella canlyniadau i garcharorion, a byddwn yn parhau i fonitro effaith y newid hwn.

Mae nifer o feysydd allweddol yr hoffwn barhau i'w datblygu eleni, sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun hwn. Un o'n blaenoriaethau y llynedd oedd gwella ein defnydd o ddata fel sail i'n gweithgarwch arolygu. Byddwn yn datblygu ein pecynnau data ymhellach yn 2023–24, i helpu i nodi meysydd lle gallai carchardai fod yn wynebu heriau neu lle maent wedi gweld gwelliannau, er mwyn gwella ein dull arolygu. Rwyf eisiau cynorthwyo carchardai i fod yn fwy effeithiol yn y ffordd maent yn defnyddio data. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae Ofsted wedi gweithio i gefnogi gwelliannau yn y ffordd mae ysgolion yn defnyddio data ac rwyf eisiau parhau i ddefnyddio'r gwersi hyn fel sail i'n gwaith. Rydym wedi dechrau gwaith i adolygu'r *Disgwyliadau* i ddynion, gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd hynny y mae angen eu hadnewyddu, gan gynnwys rheoli ymddygiad, addysg, sgiliau a gwaith a chynllunio adsefydlu a rhyddhau. Rydym hefyd yn gwella ein harolygiad o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn 2023-24 drwy ddiweddarau ein *Disgwyliadau* i bwysleisio pwysigrwydd canlyniadau dros reolaeth a phroses.

Bu'n bleser mawr cadeirio Grŵp y Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol dros y flwyddyn ddiwethaf, ac edrychaf ymlaen at barhau â'n gwaith ar y cyd â'n harolygiaethau partner i wella'r canlyniadau i bobl sy'n cael eu cadw'n gaeth ar draws y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r cynllun busnes hwn yn amlinellu ein prif flaenoriaethau ar gyfer 2023-24 a bydd yn galluogi'r Arolygiaeth i barhau i wella canlyniadau i garcharorion yn y lleoliadau rydyn ni'n eu harolygu.

Charlie Taylor
Prif Arolygydd Carchardai EM
Mawrth 2023

Adran 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r cynllun busnes hwn yn disgrifio ein gwaith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod o dan ein hamcanion strategol (gweler Atodiad II). Mae'r cynllun yn nodi mandad a gwerthoedd yr Arolygiaeth Carchardai. Disgrifir gwaith yr Arolygiaeth dan bum thema:

- **Arolygiaeth annibynnol**

Byddwn yn cyflawni ein dyletswydd statudol. Bydd ein prif dasg, sef adrodd yn gywir, yn ddiuedd ac yn gyhoeddus ynghylch y driniaeth a'r amodau ar gyfer ceiswyr lloches, yn parhau. Bydd ein dull seiliedig ar werthoedd, ein Disgwyliadau annibynnol a'n methodoleg yn ein cefnogi i sicrhau bod safonau hawliau dynol yn cael eu cynnal a bod canlyniadau i garcharorion yn gwella ar draws y gwahanol leoliadau carcharu rydym yn eu harolygu.

- **Arolygiaeth ddylanwadol**

Byddwn yn arolygu ac yn adrodd mewn ffordd agored, gan herio'n adeiladol y rhai sy'n gyfrifol am y sefydliadau rydym yn eu harolygu. Byddwn yn sicrhau bod tystiolaeth o'n harolygiadau yn sail i bolisi ac ymarfer ac yn cyfrannu at wella canlyniadau i'r rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Bydd ein strategaeth gyfathrebu yn sicrhau bod canfyddiadau ein harolygiadau ar gael i amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd.

- **Arolygiaeth atebol**

Byddwn yn rheoli ein hadnoddau'n effeithlon ac yn ymgymryd â'n gwaith mewn modd proffesiynol. Byddwn yn rhoi cyfrif am ein perfformiad ac yn parhau i ddangos gwerth am arian.

- **Arolygiaeth abl**

Byddwn yn sefydliad amlddisgyblaethol sy'n seiliedig ar werthoedd ac sydd wedi ymrwymo i arfogi ein staff â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni ein pwrpas. Fe wnawn ni ymdrechu i wella amrywiaeth ein gweithlu. Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon i wella ansawdd ein harolygiadau a gwella'r ffordd y caiff ceiswyr lloches eu trin a'r amodau ar eu cyfer.

- **Arolygiaeth gydweithredol**

Byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaeth statudol i gydweithio â'n partneriaid cyfiawnder troseddol, yn ogystal â phartneriaid eraill sy'n rhanddeiliaid allweddol, i hyrwyddo amodau ar gyfer ceiswyr lloches yn well. Fel aelod o'r Mekanwaith Atal Cenedlaethol (NPM), byddwn yn gweithio gydag Ysgrifenyddiaeth NPM (sydd wedi ei lleoli yng Ngharchardai Ei Fawrhydi) a chydag aelodau NPM i gynyddu OPCAT (Protocol Dewisol y Cenhedloedd Unedig i'r Confensiwn yn erbyn Artaith

a Thriniaethau neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill) a chydlynw gweithio ar y cyd.

- 1.2 O dan y pum thema hyn, mae'r cynllun busnes hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni ein gwaith. Mae wedi ei osod yn erbyn y prif risgiau lefel uchel sy'n gysylltiedig â'n gwaith, yr adnoddau sydd ar gael a'r tybiaethau cyllido.
- 1.3 Mae ein rhaglen arolygu ar gyfer 2023-24 a'r fframwaith arolygu y byddwn yn ei ddefnyddio yn destun ymgynghoriad statudol yn unol â gofynion Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 a.28. Mae'r ymatebion, yr ydym yn ddiolchgar amdanynt, yn cael eu hystyried a'u hymgorffori yn ein cynlluniau busnes.

Adran 2 Mandad

2.1 Mae Prif Arolygwyr olynol wedi crynhoi pwrpas yr Arolygiaeth fel a ganlyn:

‘Rydym yn sicrhau bod mannau cadw yn cael eu harchwilio’n annibynnol, yn adrodd ar amodau a thriniaeth ac yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i’r rhai sy’n cael eu cadw’n gaeth a’r cyhoedd.’

2.2 Mae’r datganiad o bwrpas hwn yn deillio o bwerau a dyletswyddau deddfwriaethol Prif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi a rhwymedigaethau’r Deyrnas Unedig sy’n deillio o’i statws fel parti i OPCAT.

Statud

2.3 Mae cyfrifoldebau Prif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi wedi eu nodi yn adrannau 5A a 43 Deddf Carchardai 1952 (fel y’i diwygiwyd). Byddant yn archwilio (neu’n trefnu i archwilio) ac yn adrodd i’r Ysgrifennydd Gwladol ar:

- garchardai, sefydliadau troseddwyd ifanc, a chanolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru a Lloegr;
- cyfleusterau cadw yn y llys yn Llysoedd y Goron, llysoedd sirol a llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr a hebryngwyr i’r cyfleusterau hyn ac oddi yno; a
- chanolfannau symud mewnfudwyr, cyfleusterau cadw tymor byr, llety cyn-gadael a threfniadau hebrwng ledled y Deyrnas Unedig.

Yn benodol, bydd y Prif Arolygydd yn adrodd i’r Ysgrifennydd Gwladol ar driniaeth ceiswyr lloches a’r amodau mewn sefydliadau.

2.4 Mae Atodlen A1 Deddf Carcharau 1952 yn nodi pwerau a dyletswyddau pellach y Prif Arolygydd i gydweithredu ac ymgynghori ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill a chyrrff eraill. Mae’r rhain fel a ganlyn:

- dirprwyo unrhyw un o’i swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus arall;
- paratoi rhaglen arolygu a fframwaith arolygu y mae’n rhaid ymgynghori â’r Ysgrifennydd Gwladol a chyrrff penodedig eraill yn ei gylch (nid yw hyn yn atal y Prif Arolygydd rhag gwneud ymweliadau heb rybudd);
- sicrhau nad yw arolygiadau gan gyrrff penodedig eraill yn rhoi baich afresymol ar sefydliadau o fewn ei gylch gwaith;
- cydweithredu â chyrrff penodedig eraill pan fo’n briodol gwneud hynny er mwyn cyflawni ei swyddogaethau’n effeithlon ac yn effeithiol;

- gweithredu ar y cyd ag awdurdodau cyhoeddus eraill pan fo'n briodol gwneud hynny er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithlon ac yn effeithiol;
 - gweithredu ar y cyd ag arolygwyr cyfiawnder troseddol eraill i baratoi rhaglen arolygu ar y cyd y mae'n rhaid ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a chyrrff penodedig eraill yn ei chylch; a
 - rhoi cymorth i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall wrth iddo arfer ei swyddogaethau.
- 2.5 Mae'r rhan fwyaf o'r arolygiadau a gynhelir gan y Prif Arolygydd yn elwa ar gymorth arolygiaethau eraill, ac mae arolygiadau o'r canolfannau hyfforddi diogel yn cael eu cynnal ar y cyd ag Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal.
- 2.6 Gall y Prif Arolygydd hefyd gynnal archwiliadau o gyfleusterau eraill drwy wahoddiad, gan gynnwys arolygiadau o gyfleusterau cadw milwrol, fel y Ganolfan Hyfforddiant Cywirol Milwrol a'r Cyfleusterau Gwasanaethu yn y Ddalfa yn y Deyrnas Unedig, carchardai yng Ngogledd Iwerddon (ar ran Arolygiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon), carchardai ar Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel a rhai carchardai tramor eraill mewn awdurdodaethau sydd â chysylltiadau â'r Deyrnas Unedig.
- 2.7 Rhaid i'r Prif Arolygydd baratoi adroddiad blynyddol i'w gyflwyno gerbron y Senedd.

Disgwyliadau

- 2.8 Disgwyliadau yw'r dogfennau sy'n nodi'r meini prawf mae'r Arolygiaeth Carchardai yn eu defnyddio i arolygu carchardai a sefydliadau carcharol eraill. Mae'r Arolygiaeth yn gosod ei meini prawf arolygu ei hun i sicrhau tryloywder ac annibyniaeth. Defnyddir y meini prawf hyn i archwilio pob agwedd ar fywyd yn y ddalfa, o gyrraedd yno tan yr adeg y caiff ei ryddhau.
- 2.9 Caiff disgwyliadau eu creu drwy ystyried y materion hynny sy'n hanfodol er mwyn trin ceiswyr lloches sydd yn y ddalfa yn ddiogel, yn barchus ac yn bwrpasol, a'u hadsefydlu'n effeithiol. Mae Disgwyliadau hefyd yn ystyried y rheolau, y rheoliadau a'r canllawiau a ddefnyddir i redeg y sefydliad carcharol.
- 2.10 O ran carchardai, mae'r cysyniad o garchar iach yn un a sefydlwyd yn gyntaf gan Sefydliad Iechyd y Byd, ond mae wedi cael ei ddatblygu gan yr Arolygiaeth ac erbyn hyn mae'n cael ei dderbyn yn eang fel diffiniad o'r hyn y dylid ei ddarparu mewn unrhyw amgylchedd carcharol. Mae'n dibynnu ar bedwar prawf allweddol sy'n amrywio ychydig yn ôl y math o amgylchedd caethiwo a arolygwyd:
- **Diogelwch**
Mae carcharorion, hyd yn oed y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.
 - **Parch**
Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas.

- **Gweithgarwch pwrpasol**

Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.

- **Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau**

Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddan nhw'n aildroseddu ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

2.11 Mae'r holl *Ddisgwyliadau* ar gael ar wefan yr Arolygiaeth:
<https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprison/our-expectations/>.

Arwain

2.12 Mae'r Arolygiaeth Carchardai wedi cryfhau'r broses o arolygu arweinyddiaeth drwy gyflwyno disgwyliadau o ran arweinyddiaeth. Mae'r rhain yn ymdrin â'r meysydd a ganlyn:

- **Cyfeiriad:** Mae arweinwyr yn cydweithio â staff, rhanddeiliaid a charcharorion i bennu a chyfleu blaenoriaethau strategol a fydd yn gwella canlyniadau i garcharorion.
- **Ymgysylltu:** Mae arweinwyr yn creu diwylliant lle mae staff a rhanddeiliaid eraill yn fodlon cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella canlyniadau i garcharorion.
- **Galluogi:** Mae arweinwyr yn darparu'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau canlyniadau da i garcharorion.
- **Gwelliant parhaus:** Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau sy'n ategu canlyniadau da i garcharorion. Maent yn monitro cynnydd yn ofalus o ran y blaenoriaethau hyn.

Yn ein *Disgwyliadau*, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli. Nid yw ein disgwyliadau o ran arweinyddiaeth yn cael eu sgorio ar hyn o bryd.

Protocol Dewisol y Cenhedloedd Unedig i'r Confensiwn yn erbyn Arteithio a Thriniaethau neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill (OPCAT)

2.13 Mae'r Arolygiaeth Carchardai yn aelod o'r Mekanwaith Atal Cenedlaethol, ac yn cynnal yr Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y corff 21-aelod hwn, y mae'r Deyrnas Unedig yn cyflawni ei rhwymedigaethau iddo fel parti i OPCAT. Cenhadaeth y Mekanwaith yw atal camdriniaeth drwy arolygu, monitro ac ymweld yn annibynnol â phob dalfa yn y Deyrnas Unedig. Fel lleiafswm, mae OPCAT yn mynnu bod y Mekanweithiau:

- yn gweithredu'n annibynnol gyda staff annibynnol

- yn meddu ar y galluoedd a'r wybodaeth broffesiynol angenrheidiol ac yn ymdrechgu i gael cydbwysedd rhwng y rhywiau a chynrychiolaeth ddigonol o leiafrifoedd ethnig a lleiafrifoedd eraill
- yn cael yr adnoddau angenrheidiol i wneud eu gwaith.

2.14 Mae rhagor o wybodaeth am Fecanwaith y Deyrnas Unedig ar gael ar ei wefan: <https://www.nationalpreventivemechanism.org.uk>

Datganiad cydraddoldeb ac amrywiaeth yr Arolygiaeth Carchardai

- 2.15 Rydym wedi ymrwymo i greu a chynnal amgylchedd gwaith sy'n hyrwyddo triniaeth deg i'r rhai o wahanol grwpiau yn ein gweithlu ac i'r rhai yn y sefydliadau rydym yn eu harolygu. Rhaid i hyn fod yn flaenllaw yn ein holl waith, gan gynnwys sut rydym ni, a'r mannau rydym yn eu harolygu, yn trin carcharorion a staff yn y mannau hynny a sut rydym yn rhyngweithio â'n rhanddeiliaid, y cyhoedd yn ehangach a gyda'n gilydd. Rydyn ni'n credu bod gwahaniaeth ac amrywiaeth yn ein gweithlu yn cryfhau'r gwaith rydyn ni'n ei wneud a'r dylanwad rydyn ni'n ei gael.
- 2.16 Rydym wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr o ddewis drwy greu amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol lle mae pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch a lle nad yw gwahaniaethu a/neu allgáu yn cael eu goddef. Ein nod yw sicrhau bod yr ymrwymadau hyn, wedi eu hategu gan ein gwerthoedd, yn cael eu gwreiddio yn ein harferion gweithio o ddydd i ddydd.
- 2.17 Ein gweledigaeth yw:
- adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn y ddalfa
 - meddu ar weithlu sydd â'r arbenigedd a'r amrywiaeth angenrheidiol i adlewyrchu'r gymuned mae'n gweithredu ynddi
 - cael amgylchedd gweithio mwy hyblyg a chefnogol sydd bob amser yn ceisio cynnwys gwahaniaethau
 - parhau i adeiladu gweithlu hyderus a chymwys sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed
 - darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'n staff fel eu bod yn gallu deall, arolygu a gwneud canfyddiadau dilys a pherthnasol sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth.
- 2.18 Er mwyn helpu i gyflawni'r weledigaeth hon, mae gennym Grŵp Cynghori ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDAG), sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Arolygydd, sy'n cyfarfod bob chwarter ac sy'n gosod yr agenda ar gyfer ein cynllun gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth 2022–24, yn ogystal â monitro cynnydd y cynllun. Mae pum prif flaenoriaeth ein cynllun gweithredu yn cynnwys:

- gwella recriwtio a chadw staff
- gwella llesiant staff
- ffyrdd gwell o weithio
- gwell cyfathrebu a thryloywder
- ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o waith ehangach yr Arolygiaeth Carchardai.

2.19 Ar ben hynny, fel rhan o'n hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal mewn sefydliadau yng Nghymru, rydym wedi cryfhau ein hagwedd at y Gymraeg yn ddiweddar. Mae rhagor o wybodaeth am sut byddwn ni'n cyflawni'r ymrwymiad hwn ar gael ar dudalennau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ein gwefan: [Cydraddoldeb ac amrywiaeth \(justiceinspectors.gov.uk\)](http://justiceinspectors.gov.uk)

Adran 3 Adnoddau

- 3.1 Rydym wedi cyflwyno cynnig cyllideb manwl i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer blwyddyn fusnes 2023-24. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd ein cyllideb ar gyfer 2023-24 fel a ganlyn:

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (cyllid craidd)	£4,757,000
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – dalfa plant	£127,372
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – canolfannau hyfforddi diogel	£37,347
Y Swyddfa Gartref - dalfa mewnfudwyr	£352,220
Y Swyddfa Gartref – cystodaeth tollau	£13,260
Y Weinyddiaeth Amddiffyn – dalfa'r lluoedd arfog	£14,036
Awdurdodaeth arall a chostau archwilio a rennir	£75,911
Cyfanswm	£5,377,146

- 3.2 Ar ben hynny, drwy wahoddiad, mae Prif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi yn cynnal arolygiadau o gyfleusterau dalfa a chadw milwrol, carchardai yng Ngogledd Iwerddon (ar ran Arolygu Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon), carchardai ar Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel a rhai carchardai tramor eraill mewn awdurdodaethau sydd â chysylltiadau â'r Deyrnas Unedig. Codir tâl adennill costau am y rhain.
- 3.3 Ym mis Mawrth 2023, roedd 66 o staff a swyddogion cyswllt sy'n derbyn ffi yn rhan o'r Arolygiaeth. Daw ein staff a'n swyddogion cyswllt o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol. Er bod gan lawer brofiad o weithio mewn carchardai, mae gan eraill gefndiroedd ym maes gwaith cymdeithasol, gwasanaethau prawf, y gyfraith, cyfiawnder ieuenctid, gofal iechyd a thriniaeth cyffuriau, ymchwil cymdeithasol a pholisi. Mae gennym swyddogaeth ysgrifenyddiaeth fach sy'n cynnwys cymorth cyllid, Adnoddau Dynol ac arolygu, cyfathrebu, cyhoeddiadau, polisi a chydlynu Mekanweithiau Atal Cenedlaethol.

Adran 4 Cynllun busnes 2023-24

- 4.1 Mae'r cynllun busnes hwn yn amlinellu amcanion yr Arolygiaeth Carchardai ar gyfer y flwyddyn dan bob un o'n pum thema strategol. Bydd y cynllun hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Fwrdd Llywodraethu Corfforaethol yr Arolygiaeth a'r Bwrdd Cyflawni i asesu cynnydd.
- 4.2 I gael rhagor o wybodaeth am waith yr Arolygiaeth Carchardai, ewch i <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/> neu dilynwch ni ar Twitter: @HMIPrisonnews.

Arolygiaeth annibynnol

Amcan 1: Archwilio ac adrodd yn gyhoeddus ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
1a	Darparu rhaglen arolygu heb rybudd ar gyfer 2023–24 yn unol â'r ymgynghoriad, gan gyhoeddi adroddiadau'n brydlon. Mae'n bosibl y cyhoeddir rhai arolygiadau yn ôl disgresiwn y Prif Arolygydd.	Mae cynnydd yn cael ei adolygu yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Cyflawni. Rhaglen arolygu wedi ei chyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn fusnes. Mae amserlenni wedi eu nodi yn ein dogfen fframwaith arolygu.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	DCI TLs PM
1b	Cyflawni Adolygiadau Annibynnol o Gynnydd, fel yr ymgynghorwyd, gan gyhoeddi adroddiadau o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.	Mae cynnydd yn cael ei adolygu yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Cyflawni. Rhaglen Adolygiadau Annibynnol o Gynnydd wedi ei chyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn fusnes. Mae amserlenni wedi eu nodi yn ein dogfen fframwaith arolygu.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	DCI TLs PM
1c	Datblygu rhaglen arolygu flynyddol ar gyfer 2024–25 ac ymgynghori â rhanddeiliaid.	Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol yn cytuno ar amlinell rhaglen arolygu 2024–25 ym mis Hydref 2023. Cytuno ar raglen derfynol erbyn mis Rhagfyr 2023.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	DCI HoRDT

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
		Cytuno ar raglen wedi ei chyllido a'i chostio'n llawn erbyn mis Chwefror 2024.		

Amcan 2: Diweddarau methodoleg arolygu carchardai i sicrhau arferion gorau a gwelliant parhaus, gan gynnwys ystyried gwersi a ddysgwyd yn sgil COVID-19.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
2a	Gweithredu newidiadau y cytunwyd arnynt i arolygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; monitro a gwerthuso'r dulliau gweithredu newydd.	I'w gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2023.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI). Darparodd canllawiau a hyfforddiant wedi ei ddiweddarau i arolygwyr ar arolygu cydraddoldeb ac amrywiaeth.	ITL EDAG DCI
2b	Ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'n harolygiadau thematig yn ein <i>Disgwyliadau</i> a'n methodoleg arolygu.	Yn mynd rhagddo	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI). Darparu arweiniad a hyfforddiant i arolygwyr ar y newidiadau a wnaed i'n methodoleg arolygu.	TLs EDAG DCI

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
2c	Cyflwyno dulliau newydd o ymarfer arolygu adsefydlu a chynllunio rhyddhau yn dilyn thema OMiC, gyda phwyslais ar lais y sawl sydd yn y ddalfa ac ar ganlyniadau.	I'w gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn fusnes.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	ITL DCI
2d	Gweithredu system ar-lein newydd ar gyfer sut rydym yn trefnu ac yn cynllunio ein harolygiadau a chasglu, cofnodi, coladu a storio ein tystiolaeth arolygu.	I'w wreiddio erbyn diwedd y flwyddyn fusnes.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI). Darparu arweiniad a hyfforddiant i arolygwyr ar ddefnyddio'r system newydd.	CI HoS HoFHRIS

Amcan 3: Cynnal adolygiad o *Disgwyliadau* i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol a'u bod yn seiliedig ar safonau hawliau dynol sy'n dod i'r amlwg a newidiadau eraill yn yr amgylchedd allanol.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
3a	Adolygu a chyhoeddi <i>Disgwyliadau</i> i garchardai dynion, gan gynnwys adolygiad o'r arolwg.	Mehefin 2023	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	DCI TLs HoP PM

Amcan 4: Darparu rhaglen o arolygiadau thematig ac adroddiadau blynyddol.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
4a	Darparu a chyhoeddi rhaglen gytunedig o arolygiadau/cyhoeddiadau thematig (fel y pennir gan y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol). Bydd hyn yn cynnwys arolygiadau thematig a gynhelir gan Garchardai Ei Fawrhydi yn unig ac arolygiadau thematig a gynhelir ar y cyd ag arolygiaethau eraill (gweler amcan 18).	I'w gytuno gan y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol a'i gyhoeddi yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	DCI TLs HoRDT SRO (themateg) HoCP PM
4b	Darparu a chyhoeddi adroddiad thematig ar ganlyniadau i blant sy'n cael eu cadw ar remánd.	Bydd y gwaith maes yn cael ei gwblhau yn hydref 2023. Cyhoeddi'r adroddiad erbyn gwanwyn 2024.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	YTL HoRDT SRO (themateg) PM

Amcan 5: Cynllunio a darparu adroddiad blynyddol i'w gyflwyno gerbron y Senedd.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
5a	Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer 2022–23, sy'n tynnu sylw ac yn gweithredu ar y prif themâu sy'n deillio o waith yr Arolygiaeth ac yn rhoi adroddiad tryloyw o'n gwaith a'n defnydd o adnoddau.	Gosodwyd gerbron y Senedd erbyn toriad yr haf yn 2023.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	CI HoS HoRDT HoCP PM

Amcan 6: Diogelu gallu'r rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa i siarad yn rhydd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
6a	Adolygu'r protocolau presennol i ddiogelu'r rhai sy'n cael eu cadw yn y ddalfa rhag sancsiynau neu gosbau sy'n deillio o gyfathrebu ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr Arolygiaeth.	Yn mynd rhagddo	Wedi ei gyflawni yn unol ag amser ac ansawdd (wedi ei gadarnhau gan CI a llofnodwyr eraill).	HoP PO

Arolygiaeth ddylanwadol

Amcan 7: Mynd ati'n fwy rhagweithiol i hyrwyddo gwelliannau i ganlyniadau mewn carchardai drwy gynyddu effaith canfyddiadau ac argymhellion yr Arolygiaeth Carchardai a rhannu arferion gorau.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
7a	Datblygu dull gweithredu ar gyfer y sefydliad cyfan ar gyfer casglu a rhannu arferion nodedig. Cyhoeddi enghreifftiau rheolaidd, gan weithio gyda chydweithwyr o'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i sicrhau'r effaith orau bosibl.	Cytuno ar y dull gweithredu erbyn mis Mawrth 2023 i'w roi ar waith drwy gydol 2023, a'r gwerthusiad cychwynnol ym mis Rhagfyr 2023.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	DCI HoRDT HoCP SPO

Amcan 8: Sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid i hyrwyddo ein canfyddiadau.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
8a	Dylunio a gweithredu strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid i gryfhau ein perthynas â rhanddeiliaid, optimeiddio'r ffordd rydym yn defnyddio ein sianeli i ymgysylltu â nhw ar y materion iawn ar yr adeg iawn a gwella ein prosesau ymgynghori.	Rhagfyr 2023	Gwella cysylltiadau gwaith; canllawiau ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid yn eu lle.	HoP PO HoCP

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
8b	Gweithredu strategaeth gyfathrebu sy'n nodi sut byddwn yn defnyddio ein sianeli i barhau i ymestyn ein cyrhaeddiad a'n dylanwad, er mwyn gwella canlyniadau a phrofiadau ceiswyr lloches. Mae'r prif ffrydiau gwaith yn cynnwys: • adolygu a gwella ein gwefan cyn symud i wasanaeth a letyir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder • diweddarau ein strategaeth cyfryngau cymdeithasol • gwella ein prosesau monitro a gwerthuso.	Yn mynd rhagddo	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI). Effaith cyfathrebu allanol i'w fesur drwy arolwg blynyddol o randdeiliaid.	CI HoCP

Amcan 9: Cynnal hyder rhanddeiliaid yn ein gwaith.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
9a	Casglu, dadansoddi a chyhoeddi adborth gan rhanddeiliaid yn rheolaidd.	Arolwg blynyddol o rhanddeiliaid wedi ei gynnal erbyn mis Tachwedd 2023. Dadansoddi ymatebion i'r arolwg rhanddeiliaid ac adrodd amdanynt i staff y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol erbyn mis Ionawr 2024. Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol a chyfarfodydd y Bwrdd Cyflawni i adolygu canfyddiadau arolygon gadael ac arolygon adborth adroddiadau arolygiadau.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	HoRDT HoS DCI HoCP
9b	Ymateb i ohebiaeth a galwadau ffôn yn brydlon ac yn effeithiol a sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn cael ei bwydo i mewn i wybodaeth a gedwir ar bob sefydliad.	Darparu ffigurau a thueddiadau misol i'r Bwrdd Cyflawni a'r Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	HoS
9c	Sicrhau yr ymatebir i bob pryder diogelu – boed yn ystod arolygiad, drwy ohebiaeth neu alwad ffôn – yn brydlon ac yn unol â phrotocolau diogelu'r Arolygiaeth Carchardai.	Darparu ffigurau a thueddiadau misol i'r Bwrdd Cyflawni a'r Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol.	Cofnodi pob pryder diogelu yn gywir ac ymateb iddynt yn brydlon.	HoS Arolygwyr Diogelu

Arolygiaeth atebol

Amcan 10: Datblygu a chyhoeddi cynllun busnes blynyddol.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
10a	Drafftio cynllun busnes newydd ar gyfer 2024–25.	Cyhoeddi cynllun busnes ar wefan yr Arolygiaeth Carchardai erbyn 1 Ebrill 2024.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	HoS DCI CI PM

Amcan 11: Sicrhau safon uchel o lywodraethu corfforaethol.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
11a	Sicrhau bod y gyllideb yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn dryloyw wrth gyflawni'r perfformiad disgwylidig a chyflawni amcanion y busnes.	Rhagolygon misol i'w hadolygu gan DCI. Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol i graffu ar y rhagolwg chwarterol.	Mae'r Arolygiaeth Carchardai yn cyflawni cynllun busnes o fewn y gyllideb; mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol/y Weinyddiaeth Gyfiawnder hyder yn y gwaith o reoli'r gyllideb.	CI DCI HoS HoFHRIS
11b	Adolygu a diwygio systemau rheoli gwybodaeth yr Arolygiaeth Carchardai er mwyn gallu storio a chyfnwid gwybodaeth yn fwy effeithiol.	Erbyn diwedd y flwyddyn fusnes.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	HoS HoFHRIS HoRDT

11c	Adolygu a diwygio polisi rhannu data a hysbysiad preifatrwydd yr Arolygiaeth Carchardai. Cytuno ar brotocolau rhannu data wedi eu diweddarau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.	I'w wreiddio erbyn mis Mawrth 2024.	Wedi ei gyflawni yn unol ag amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol).	HoRDT
-----	--	-------------------------------------	---	-------

Arolygiaeth abl

Amcan 12: Parhau i wella ein gallu i ymchwilio a dadansoddi.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
12a	Gwella ein holiadur ar gyfer carcharorion mewn carchardai dynion, gan ystyried: - diwygiadau i'r <i>Disgwyliadau</i> i ddynion - adolygu gwelliannau	I'w gwblhau erbyn diwedd 2023.	Holiadur newydd ar waith yn ystâd carchardai'r dynion mewn pryd.	HoRDT
12b	Adolygu'r ieithoedd mae ein holiaduron ar gael ynddynt, er mwyn diwallu anghenion carcharorion a cheiswyr lloches.	I'w gwblhau erbyn diwedd 2023.	Holiaduron y rhai sydd yn y ddalfa yn cael eu dosbarthu'n brydlon yn yr ieithoedd gofynnol.	HoRDT
12c	Parhau i adolygu a gwella sut rydym yn defnyddio data fel sail i'n harolygiadau o ddalfeydd.	Yn mynd rhagddo	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	HoRDT

Amcan 13: Sicrhau bod gan yr Arolygiaeth weithlu sy'n meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd priodol, a bod aelodau staff yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
13a	Ymgorffori cynllun gweithredu dysgu a datblygu wedi ei ddiweddarau, a fydd yn cynnwys: • goruchwyliaeth gadarn o'r staff sy'n cwblhau hyfforddiant gorfodol • dull strategol o ymdrin â Diwrnodau Datblygu'r holl staff • cyfleoedd i arolygwyr adnewyddu meysydd penodol o ymarfer arolygu • cyfleoedd i'r holl staff gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a datblygu • cyfleoedd ar gyfer mentora a chefnogaeth gan gymheiriaid.	Yn mynd rhagddo	Rhagor o sgoriau yn arolwg pobl y Gwasanaeth Sifil 2022 o ran hyfforddi a datblygu.	HoS HoFHRIS HRM
13b	Sicrhau bod fforymau polisi'r Arolygiaeth Carchardai yn galluogi staff i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddaraf polisi mewn dalfeydd,	Yn mynd rhagddo	Rhagor o sgoriau yn arolwg pobl y Gwasanaeth Sifil 2023 o ran hyfforddi a datblygu.	TLs HoP DCI

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
	trafod arferion a chanfyddiadau arolygu yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, a hwyluso rhannu arbenigedd ar draws y sefydliad.			
13c	Sicrhau bod canllawiau iechyd a diogelwch i staff yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n barhaus i adlewyrchu iechyd y cyhoedd a chynghor ehangach y llywodraeth.	Yn mynd rhagddo	Adborth cadarnhaol gan staff; camau gweithredu gweladwy i ymateb i adborth.	DCI HoS HoFHRIS
13d	Sicrhau cefnogaeth barhaus ac ystyrlon i staff drwy waith rhwydwaith Cefnogi Staff yr Arolygiaeth Carchardai.	Yn mynd rhagddo	Adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth. Y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol i adolygu defnydd y rhwydwaith Cymorth i Staff a themâu dienw ddwywaith y flwyddyn.	HoS
13e	Adolygu adnoddau a sianeli cyfathrebu mewnol i wneud yn siŵr eu bod yn dal yn addas i'r diben o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ddatblygiadau yn yr Arolygiaeth, gwaith CI a'r sector ehangach, a'u bod yn cyfrannu at rannu gwybodaeth rhwng timau.	Yr adolygiad wedi ei gyflawni erbyn mis Mai 2023, y canfyddiadau wedi eu rhoi ar waith erbyn mis Gorffennaf 2023. Cyflawni gwaith craidd yn parhau.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI). Effaith cyfathrebu mewnol i'w fesur drwy arolygon staff ac adborth.	HoCP
13f	Parhau i wrando ar staff a gweithredu ar eu hadborth, gan	Yn mynd rhagddo	Adborth cadarnhaol gan staff; camau	DCI

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
	gynnwys drwy arolwg blynyddol pobl y Gwasanaeth Sifil.		gweithredu gweladwy i ymateb i adborth.	HoS HoFHRIS

Amcan 14: Gwreiddio ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws yr Arolygiaeth.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
14a	Adolygu cynnydd ein cynllun gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth presennol 2022–24.	Yn mynd rhagddo	Cyflawni'r cynllun gweithredu yn cael ei fonitro gan y Grŵp Cyngori ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a'r Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol.	CI DCI HoS EDAG
14b	Drwy'r Grŵp Cyngori ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, parhau i weithio ar gynyddu amrywiaeth yn yr Arolygiaeth.	Yn mynd rhagddo	Cynnydd yn nifer y staff o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.	DCI HoS HoFHRIS EDAG

Arolygiaeth gydweithredol

Amcan 15: Sicrhau bod yr Arolygiaeth Carchardai a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio'n effeithiol fel ein prif adran noddi.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
15a	Parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unol â'r protocol cyhoeddedig a diwygio a	Yn mynd rhagddo	Cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Arolygiaeth Carchardai; gwelliannau	HoS DCI

diweddarau'r protocol
fel bo'n briodol.

parhaus mewn
cysylltiadau
gwaith; protocol
wedi ei
ddiweddaru ac
yn cael ei
ddefnyddio fel
templed ar gyfer
arolygiaethau
eraill.

Amcan 16: Gweithio gyda phartneriaid arolygu i ychwanegu gwerth a gwella canlyniadau ar gyfer pobl yn y ddalfa.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
16a	Parhau i gydweithio â'n hamrywiaeth o randdeiliaid allweddol, sy'n cynnwys arolygiaethau eraill, partneriaid gofal iechyd a rheoleiddwyr a'r llywodraethau datganoledig.	Yn mynd rhagddo	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	TLs DCI HoS
16b	Diweddarau Memoranda Cyd-ddealltwriaeth a phrotocolau gyda phartneriaid yn ôl yr angen.	Yn mynd rhagddo	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	HoS

Amcan 17: Chwarae rhan weithredol yn y Mekanwaith Atal Cenedlaethol.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
17a	Cyfrannu at waith y Mekanwaith Atal Cenedlaethol drwy: - chwarae rhan weithredol yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio'r Mekanwaith a'r Grŵp Busnes - cefnogi, cymryd rhan a chyfrannu at is-grwpiau'r Mekanwaith Atal Cenedlaethol lle bo angen (CYP, plismona).	Yn mynd rhagddo	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	SPO TLs

Amcan 18: Cyfrannu'n weithredol at y rhaglen thematig ac arolygu cyfiawnder troseddol ar y cyd.

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
18a	Cyfrannu at ddatblygu a chyflwyno rhaglen waith y CJJI yn llwyddiannus drwy: - fynd i gyfarfodydd y Prif Arolygydd yn rheolaidd - mynd i gyfarfodydd y Grŵp Datblygu yn rheolaidd (lle bydd HoRDT yn bresennol)	Parhaus, ac yn unol â therfynau amser y cytunwyd arnynt.	Wedi ei gyflawni yn unol â disgwyliadau o ran amser ac ansawdd (wedi ei gymeradwyo gan CI).	CI DCI HoRDT

Rhif	Elfen allweddol i'w chyflawni	Amserlen	Mesur o lwyddiant	Arweinydd
	- ymgymryd â gwaith thematig ar y cyd fel bo'n briodol - ymgymryd â gwaith cydweithredol arall fel bo'n briodol.			

Atodiad I: Geirfa

CI	Prif Arolygydd
CJINI	Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon
CQC	Y Comisiwn Ansawdd Gofal
CYP	Plant a phobl ifanc
DCI	Dirprwy Brif Arolygydd
EDAG	Grŵp Cyngori Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Disgwyliadau	Y ddogfen sy'n nodi'r meini prawf manwl mae Arolygiaeth Carchardai EM yn eu defnyddio i arfarnu ac arolygu carchardai a sefydliadau carcharu eraill. Defnyddir y meini prawf i archwilio pob agwedd ar fywyd yn y ddalfa, o gyrraedd yno tan yr adeg y caiff ei ryddhau.
HMIP	Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
HMPPS	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi
HoCP	Pennaeth Cyfathrebu a Chyhoeddiadau
HoFHRIS	Pennaeth Cyllid, Adnoddau Dynol a Chymorth Arolygu
HoP	Pennaeth Polisi
HoRDT	Pennaeth Ymchwil, Datblygu a Materion Thematig
HRM	Rheolwr HR
HoS	Pennaeth yr Ysgrifenyddiaeth
MoJ	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
MoU	Memorandwm cyd-ddealltwriaeth
NPM	Mecanwaith Atal Cenedlaethol
Ofsted	Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau
OMiC	Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa
OPCAT	Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio a Thriniaethau neu Gosbau Creulon, Annynol neu Ddiraddiol eraill
PM	Rheolwr Cyhoeddiadau

PO	Swyddog Polisi
SRO	Uwch Swyddog Ymchwil
STC	Canolfan hyfforddi ddiogel
TL	Arweinydd Tîm
YOI	Sefydliad troseddwr ifanc
YTL	Arweinydd Tîm

Atodiad II: Amcanion strategol 2023–24

Mae'r cynllun busnes hwn yn amlinellu amcanion yr Arolygiaeth Carchardai ar gyfer y flwyddyn dan bob un o'n pum thema strategol.

Arolygiaeth annibynnol

1. Archwilio ac adrodd yn gyhoeddus ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth.
2. Diweddarau methodoleg arolygu carchardai i sicrhau arferion gorau a gwelliant parhaus, gan gynnwys ystyried gwersi a ddysgwyd yn sgil COVID-19.
3. Cynnal adolygiad o *Disgwyliadau* i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol a'u bod yn seiliedig ar safonau hawliau dynol sy'n dod i'r amlwg a newidiadau eraill yn yr amgylchedd allanol.
4. Darparu rhaglen o arolygiadau thematig ac adroddiadau blynyddol.
5. Cynllunio a darparu adroddiad blynyddol i'w gyflwyno gerbron y Senedd.
6. Diogelu gallu'r rhai sy'n cael eu cadw i siarad yn rhydd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi.

Arolygiaeth ddylanwadol

7. Mynd ati'n fwy rhagweithiol i hyrwyddo gwelliannau i ganlyniadau mewn carchardai drwy gynyddu effaith canfyddiadau ac argymhellion yr Arolygiaeth Carchardai a rhannu arferion gorau.
8. Sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid i hyrwyddo ein canfyddiadau.
9. Cynnal hyder rhanddeiliaid yn ein gwaith.

Arolygiaeth atebol

10. Datblygu a chyhoeddi cynllun busnes blynyddol.
11. Sicrhau safon uchel o lywodraethu corfforaethol.

Arolygiaeth abl

12. Parhau i wella ein gallu i ymchwilio a dadansoddi.
13. Sicrhau bod gan yr Arolygiaeth weithlu sy'n meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd priodol, a bod aelodau staff yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu rolau'n effeithiol.
14. Gwreiddio ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws yr Arolygiaeth.

Arolygiaeth gydweithredol

15. Sicrhau bod yr Arolygiaeth Carchardai a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio'n effeithiol fel ein prif adran noddi.
16. Gweithio gyda phartneriaid arolygu i ychwanegu gwerth a gwella canlyniadau ar gyfer pobl yn y ddalfa.
17. Chwarae rhan weithredol yn y Mekanwaith Atal Cenedlaethol.
18. Cyfrannu'n weithredol at y rhaglen thematig ac arolygu cyfiawnder troseddol ar y cyd.

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
3ydd Llawr
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU